








AHVLA
Asiantaeth
Iechyd Anifeiliaid a
Labordai Milfeddygol

# AHVLA

## Strategaeth Filfeddygol a Thechnegol

‘Sicrhau dyfodol iach’’

## Tabl Cynnwys


1. RHAGAIR GAN GYFARWYDDWR MILFEDDYGOL AHVLA ........ 3
2. PAM BOD ANGEN STRATEGAETH ARNOM? ........ 4
3. BETH SYDD BWYSICAF? ........ 5
4. BETH YW EIN DIBEN? ........ 6
5. PWY YW EIN POBL? ........ 8
6. RHEOLI A SICRHAU EIN MEDRUSRWYDD ........ 10
7. BETH SY'N DIGWYDD NESAF? ........ 11

# RHAGAIR GAN GYFARWYDDWR MILFEDDYGOL AHVLA

**1.1** Mae angen gwasanaethau milfeddygol a thechnegol y llywodraeth ym Mhrydain Fawr er mwyn diogelu ein diwydiannau da byw a'n dinasyddion rhag perygl clefydau anifeiliaid sy'n amharu ar eraill. Mae'n hanfodol hefyd sicrhau bod gwasanaethau milfeddygol a thechnegol sy'n amlwg yn gymwys ar waith i hwyluso'r fasnach ddiogel mewn anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid a chefnogi twf economaidd.

**1.2** AHVLA sy'n darparu rhan sylweddol o adnoddau'r gwasanaeth milfeddygol cenedlaethol ac rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill i sicrhau gallu cydlynol i ymateb i fygythiadau sy'n newid o hyd. Mae clefydau anifeiliaid wedi'u rhestru ochr yn ochr â therfysgaeth a thrychinebau naturiol fel un o'r risgiau â blaenoriaeth uchaf yn y Gofrestr Risgiau Genedlaethol o Argyfyngau Sifil[1].

**1.3** Mae'r strategaeth hon ar gyfer ein gwasanaethau milfeddygol a thechnegol yn disgrifio'r swyddogaethau hanfodol y mae'n rhaid i AHVLA ymgymryd â hwy, gan edrych ymlaen bump i ddeng mlynedd, er mwyn deall yr hyn sy'n debygol o newid a'r hyn a all aros yn ddigyfnewid. Mae'r terfyn amser hwn yn rhychwantu newidiadau gwleidyddol a phwysau presennol ar gyllid cyhoeddus ac mae'n bwysig oherwydd natur y bygythiadau a wynebwn a'r adnoddau sydd eu hangen arnom i gynnal a diogelu budd y wlad.

**1.4** Mae meddygaeth filfeddygol y wladwriaeth yn ddisgyblaeth ac iddi rai nodweddion arbennig:

- Gall milfeddygon a thechnegwyr y Llywodraeth ystyried iechyd a lles anifail neu fuches unigol ond mae cyfrifoldeb arnom i weithredu ar lefelau rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang:

- Ar statws iechyd y fuches neu'r braidd genedlaethol y byddwn yn canolbwyntio'n bennaf a mater eilaidd yn unig yw budd anifeiliaid unigol. Rydym wedi ein datgysylltu oddi wrth y berthynas fasnachol rhwng practis milfeddygol a'i gleient ac unrhyw wrthdaro buddiannau.

- Mae mesurau statudol a ddefnyddir er budd y wlad yn gymwys i bob ceidwad felly mae'n rhaid i ni ddarparu gwasanaeth hyd yn oed pan na fyddai'n fasnachol ymarferol a phan na all y derbynnydd uniongyrchol dalu amdano neu pan nad yw'n ofynnol talu amdano.

- Rydym yn arfer meddygaeth boblogaeth drwy ymchwiliadau maes, casglu gwybodaeth a defnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol.


- Rydym yn gwneud penderfyniadau a all gael effaith fawr felly mae'n rhaid iddynt gael eu llywio gan y dystiolaeth orau sydd ar gael ac rydym yn helpu i ddarparu'r dystiolaeth honno drwy wybodaeth, ymchwil a gwaith dadansoddi.

- Rydym yn rhoi cyngor i Weinidogion a'r rhai sy'n llunio polisïau sy'n ddiduedd o ran buddiannau masnachol.

- Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio mewn timau amlddisgyblaethol sy'n cynnwys milfeddygon, technegwyr, gwyddonwyr, rheolwyr a staff gweinyddol. Mae gan bob un o'r bobl hyn eu maes o arbenigedd sydd, mewn sawl achos, wedi datblygu dros flynyddoedd o hyfforddiant a gwasanaeth.

**1.5** Mae'r strategaeth hon wedi datblygu drwy drafodaethau o fewn AHVLA ac ymhlith cydweithwyr yn y llywodraeth. Mae'n nodi cyd-destun ar gyfer cynllun gweithredu a fydd yn seiliedig ar amserlen resymol ar gyfer cyflawni'r newidiadau sy'n deillio o'r strategaeth. Mae'n rhaid i'r rhain gynnwys datblygu a chydnabod y galluoedd a'r ymddygiadau sy'n ofynnol gan bawb yn y tîm milfeddygol technegol a phennu rolau gyda chyfuniadau a lefelau gwahanol o arbenigedd a all ymaddasu i ddiwallu anghenion sy'n newid o hyd.

**1.6** Rwy'n ddiolchgar i'r holl bobl a gyfrannodd tuag at ddatblygu'r Strategaeth Filfeddygol a Thechnegol hon ac edrychaf ymlaen at ein gwaith pellach gyda'n gilydd i'w rhoi ar waith.



**Simon Hall**
**Cyfarwyddwr Milfeddygol, AHVLA**

[1] Cofresr Risgiau Genedlaethol o Argyfyngau Sifil: http://www.cabinetoffice.gov.uk/resource-library/national-risk-register - cyrchwyd 17 Rhagfyr 2012.

# PAM BOD ANGEN STRATEGAETH ARNOM?

**Gwasanaethau Milfeddygol a Thechnegol AHVLA**
**Sicrhau Dyfodol Iach i Anifeiliaid ac i Bobl**

Gyda'n gilydd byddwn yn creu cymuned o staff milfeddygol a thechnegol ymatebol y gellir ymddiried ynddynt. Bydd gwybodaeth weithredol a barn arbenigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ategir gan werthoedd craidd uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a diduedddrwydd wrth wraidd popeth a wnawn. Bydd ein pobl yn canolbwyntio ar ganlyniadau a chânt eu gwerthfawrogi a'u parchu fel dylanwadwyr allweddol a phobl sy'n datrys problemau ymarferol cymhleth. Byddant yn gallu gweithio'n hyblyg, o dan bwysau ac mewn amgylcheddau heriol. Bydd dyfodol o ddysgu gydol oes, rhannu gwybodaeth a gweithio mewn partneriaeth mewn ffordd arloesol yn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl ac yn diogelu rhag canlyniadau amgylcheddol niweidiol. Yn anad dim, byddwn yn dangos ymrwymiad parhaus i sicrhau dyfodol iach i anifeiliaid ac i bobl.

**2.1** Mae AHVLA yn darparu gwasanaethau iechyd a lles anifeiliaid i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.

**2.2** Mae AHVLA yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol er mwyn atal, canfod a rheoli bygythiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid ac sydd yn aml yn arwain at ymateb amlasiantaethol wedi'i lunio yn unol â'r sefyllfa dan sylw.

**2.3** Mae gan wasanaeth milfeddygol y wladwriaeth ym Mhrydain Fawr dreftadaeth gyfoethog o gyflawni drwy gefnogi twf drwy ddiogelu'r diwydiannau da byw rhag risgiau busnes oherwydd clefydau ag effaith fawr megis clwy'r traed a'r genau, brwselosis a ffliw adar. Rydym wedi lleihai amlygiad y cyhoedd yn sylweddol i *Salmonela* a BSE, ac wedi gweithredu newidiadau pwysig ym maes lles anifeiliaid drwy reoleiddio systemau dwys a chludiant. Caiff y manteision hyn eu lluosi drwy ein dylanwad rhyngwladol gan helpu i osgoi cyfyngiadau annheg ar fasnach.

**2.4** Rydym yn ymrwymedig i'r fenter One-Health[2] sy'n cydnabod y cysylltiadau rhwng iechyd pobl, anifeiliaid a'r amgylchedd. Daw 61% o glefydau mewn pobl sydd newydd eu darganfod a 61% o'r holl glefydau heintus mewn pobl o gysylltiad ag anifeiliaid[3]. Mae bygythiadau anuniongyrchol yn codi o ddiogelwch bwyd a materion diogelwch bwyd a bioderfysgaeth.

**2.5** Fel arweinwyr ym maes atal a rheoli clefydau, lles anifeiliaid a diogelwch bwyd rydym yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at sicrhau cyflenwad diogel a chynaliadwy o fwyd a hyrwyddo twf economaidd. Mae ein gwaith ar waredu gwastraff anifeiliaid, gweddillion a gwenwynau, symleiddio rheoliadau, darparu gwybodaeth a lleihau ôl troed carbon y wlad yn adlewyrchu ein pryderon ynglŷn ag effaith bosibl ein gwaith ar gymdeithas a'r amgylchedd. Gan weithredu ar ran yr Awdurdod Cymwys[4] mae ein pobl yn gyfrifol am sicrhau dyfodol iach i anifeiliaid ac i bobl ac maent yn gymwys i wneud hynny.


**2.6** Mae'r strategaeth hon yn ategu Strategaeth Wyddoniaeth AHVLA[5]. Mae swyddogaethau milfeddygol a thechnegol a thystiolaeth gadarn sy'n seiliedig ar wyddoniaeth yn hanfodol i bopeth a wnawn ac adlewyrchir hyn mewn themâu strategol cyffredin sef nodi bygythiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid, diffinio bygythiadau a lliniaru bygythiadau. Gall pobl â chymwysterau gwyddonol neu filfeddygol ddatblygu eu gyrfa rhwng symud rhwng ymchwil, gweithrediadau, cyngor polisi a gwasanaethau corfforaethol.

**2.7** Ein gweledigaeth yw y byddwn yn creu cymuned o staff milfeddygol a thechnegol ymatebol y gellir ymddiried ynddynt gyda ffocws gweithredol cadarn ar wyddoniaeth ac ymchwil. Ein gwerthoedd craidd fydd uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd, a diduedddrwydd. Bydd proses o wneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth a ffocws ar ganlyniadau yn ganolog i'r ffordd yr ydym yn gweithredu. Bydd ein pobl yn cael eu parchu fel dylanwadwyr allweddol a rhai sy' datrys problemau ymarferol cymhleth a byddant yn ystyriol o'u cyfrifoldebau cymdeithasol a'u heffaith ar yr amgylchedd. Bydd y strategaeth hon yn ein hatgoffa mai gwerthoedd, galluoedd, ymddygiadau ac ymrwymiad ein gweithlu milfeddygol a thechnegol yw ein hased mwyaf o hyd o ran sicrhau dyfodol iach.

[2]One Health Initiative: http://www.onehealthinitiative.com/ - Cyrchwyd 17 Rhagfyr 2012.
[3]Taylor LH, Latham SM, Woolhouse ME. (2001), Risk Factors for Human Disease Emergence, Philos Trans R Soc Lond B Biol Sci, vol. 356 (1411), tud 983-989, Risk factors for human disease emergence" - Cyrchwyd 15 Rhagfyr 2012.
[4]Diffiniad OIE o Awdurdod Cymwys: http://www.oie.int/index.php?id=169&L=0&htmfile=glossaire.htm - Cyrchwyd 15 Rhagfyr 2012.
[5]Strategaeth Wyddoniaeth AHVLA: http://www.defra.gov.uk/ahvla/files/science-strategy2012-15.pdf - Cyrchwyd 17 Rhagfyr 2012.

# BETH SYDD BWYSICAF?

**3.1** Mae Strategaeth Filfeddygol a Thechnegol AHVLA yn un hirdymor ac mae wedi'i strwythuro o amgylch y fframwaith strategol a gyflwynir yn Ffigur 1. Mae'n adlewyrchu pa mor bwysig yw'r gallu i ymaddasu at heriau newydd tra'n diogelu craidd anostyngadwy critigol o adnoddau a gallu i'w defnyddio er budd y wlad o dan reolaeth fanwl Gweinidogion.




**Ffigur 1: Y fframwaith strategol milfeddygol a thechnegol**

**3.2** Mae cyflawni'n effeithiol yn golygu cael y bobl gywir yn y lle cywir, ar yr adeg gywir a deall y cyd-destun y maent yn gweithredu ynddo. Mewn amgylchedd sy'n newid o hyd mae angen unigolion hyblyg a chanddynt amlsgiliau, y prosesau rheoli gorau posibl a seilwaith a diwylliant cefnogol:

- Lefel uchel o ymwybyddiaeth sefyllfaol er mwyn deall yr holl fygythiadau sy'n deillio o anifeiliaid gan gynnwys y rhai sy'n deillio o ymddygiad pobl.
- Cydnerthedd ar gyfer ymateb amserol a chymesur i fygythiadau hysbys ac annisgwyl sy'n ymwneud â chlefydau anifeiliaid.
- Dealltwriaeth gyfredol o'r safonau lles ar gyfer rhywogaethau unigol o dda byw a'r amodau sydd eu hangen i ystyried anghenion seicolegol ac ymddygiadol ac osgoi unrhyw ddioddefaint neu anaf diangen.
- Cysylltiadau cadarn rhwng y broses o lunio polisi, gweithrediadau ac ymchwil fel y gallwn ddeall canlyniadau a fwriadwyd, rhoi tystiolaeth i brofi rhagdybiaethau a chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau er mwyn creu polisïau sy'n addas at y diben.

# BETH YW EIN DIBEN?

**4.1** Mae pedair ystyriaeth gydnabyddedig ar gyfer ymyrraeth y llywodraeth sy'n helpu i bennu polisi a chanlyniadau Defra:

1. Effaith economaidd
2. Effaith ar iechyd y cyhoedd
3. Lles anifeiliaid
4. Masnach ryngwladol

Rydym wedi ymgynghori â pherchenogion polisïau a'r Prif Swyddogion Milfeddygol sydd wedi cadarnhau y bydd angen i AHVLA ymgymryd â'r swyddogaethau hanfodol canlynol ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.

**4.2 Atal, canfod a rheoli bygythiadau i iechyd anifeiliaid:** Hybu cynhyrchiant, osgoi unrhyw ddigwyddiad a all amharu ar iechyd anifeiliaid a chyfyngu ar ei raddfa a lleihau'r effeithiau i'r llywodraeth, y diwydiannau da byw a'r economi ehangach.

**4.3 Diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau o anifeiliaid:** Gweithio'n agos gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd a chydweithwyr yn Iechyd y Cyhoedd i nodi a lliniaru risgiau o dda byw a gaiff eu ffermio, anifeiliaid anwes a bywyd gwyllt.

Rydym yn ymdrin â bygythiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid ar dri cham:

- **Ymwybyddiaeth o fygythiad:** Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gyffredinol o'r bygythiadau sy'n debygol o effeithio ar iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd nawr ac yn y dyfodol. Mae'r rhain fel arfer yn cynnwys bacteria, feirysau, parasitiaid, ffwng, prionau ac achosion o wenwyno. Gall y risg gael ei dwysau drwy ymddygiad unigolion sy'n ymgymryd â gweithgareddau risg uchel megis symud anifeiliaid ond nad ydynt yn cydymffurfio â rheoliadau.

- **Diffinio bygythiadau:** Adnabod y clefyd, cyfrwng y clefyd, cemegol, ymddygiad, newid mewn ffactorau risg megis newid mewn hwsmonaeth neu'r amgylchedd sy'n peryglu iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd a lefel y bygythiad a achosir.

- **Lliniaru bygythiadau:** Lleihau'r amlygiad i'r bygythiad mewn ffordd systematig a'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd eto. Mae'n rhaid i systemau cofrestru, arolygu, cymeradwyo, trwyddedu ac archwilio gydnabod pwysigrwydd cyfrifoldeb ar y cyd a bod yn gymesur ag effaith y bygythiad.

**4.4 Hwyluso masnach ddiogel:** Cefnogi twf economaidd tra'n lleihau'r risgiau y bydd clefyd yn ymledu dros ffiniau.

- Rydym yn ymgymryd â gwaith gwyliadwriaeth a'r modd i ardystio statws iechyd anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid er mwyn sicrhau gwledydd sy'n mewnforio ynglŷn â statws iechyd ein hanifeiliaid a'n cynhyrchion anifeiliaid.

- Rydym yn asesu risgiau ac yn archwilio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid a fewnforir er mwyn diogelu ein dinasyddion a'n hanifeiliaid.

- Rydym yn cyd-drafod safonau rhyngwladol yn seiliedig ar risg wyddonol; eu rhoi ar waith mewn ffordd dryloyw er mwyn lleihau unrhyw rwystrau diangen i fasnachu.


**4.5 Diogelu lles anifeiliaid:** Gweithio gyda'n partneriaid gorfodi mewn awdurdodau lleol ac eraill i bennu a sicrhau safonau lles anifeiliaid, gan sicrhau bod ceidwaid da byw yn cyflawni eu cyfrifoldebau drwy gyrraedd safonau cyfreithiol.

**4.6 Cynnig ymgynghoriaeth filfeddygol a thechnegol arbenigol a chyngor i lywio'r broses o ddatblygu, gweithredu ac adolygu polisïau:**
Sicrhau bod penderfyniadau yn seiliedig ar y wyddoniaeth a'r dystiolaeth orau sydd ar gael. Saith maes gweithgarwch milfeddygol a thechnegol a dylanwad AHVLA yw:

1. Clefydau egsotig
2. Rheolaethau ar ffiniau
3. Lleihau'r risg o glefyd
4. Clefydau endemig ac anstatudol
5. Diogelu'r gadwyn fwyd
6. Clefydau a milheintiau hysbysadwy
7. Lles

Mae'r saith maes gwaith hyn wedi'u hategu gan adnoddau trawsbynciol mewn gwyliadwriaeth, epidemioleg, dadansoddi risgiau, rheoleiddio, cynllunio wrth gefn ac ymateb i achosion o glefyd (Ffigur 2).

Mae'n rhaid i AHVLA gadw a datblygu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad milfeddygol a thechnegol cymwysedig ym mhob un o'r meysydd hyn o filfeddygaeth y wladwriaeth.




**Ffigur 2: Saith piler dylanwad milfeddygol a thechnegol**

# PWY YW EIN POBL?

**5.1 Rydym yn darparu gallu ac adnoddau strategol:** Mae'r gallu a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ein diben yn dibynnu ar filfeddygon a thechnegwyr sydd â chyfuniad unigryw o sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau sy'n cael eu datblygu a'u meithrin dros amser drwy ddysgu, ymarfer a phrofiad. Mae budd y wlad a rhwymedigaethau rhyngwladol yn ei gwneud yn ofynnol i AHVLA gynnal trefn gwyliadwriaeth ac ymateb clefyd a lles effeithiol. Mae hyn yn penderfynu maint a natur a sgiliau'r tîm milfeddygol a thechnegol a gall newid dros amser gyda bygythiadau byd-eang a gallu sefydliadau partner.

- Craidd optimaidd o staff sy'n meddu ar y sgiliau i gyflawni rheolaethau iechyd a lles anifeiliaid statudol a chamau eraill sy'n ofynnol gan y llywodraeth.
- Y gallu i ganfod ar y cychwyn ac adnoddau ymchwydd i reoli clefydau heintus anifeiliaid a chyngor arbenigol ac amserol cysylltiedig.
- Mynediad at wasanaethau labordy eraill, megis y gallu i ddadansoddi gweddillion a thocsinau.
- Strwythur, diwylliant a phrosesau sefydliadol cefnogol.
- Personél maes i gymryd camau statudol i liniaru a rheoli risg o glefydau anifeiliaid, er mwyn galluogi masnach ac allforion anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid, a hyrwyddo a sicrhau lles da anifeiliaid.
- Gwyliadwriaeth er mwyn gallu canfod clefydau anifeiliaid newydd neu rai sy'n ymddangos eto, eu nodweddu, asesu'r risg a achosir ganddynt a chyfleu gwybodaeth amdanynt, gan gynnwys milheinitiau, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol a monitro effaith ymyriadau.
- Darparu tystiolaeth amserol o safon dda neu sicrhau ei bod ar gael (arbenigedd, poblogaeth a data eraill sy'n ymwneud ag anifeiliaid); dadansoddi (epidemioleg, gan gynnwys dadansoddi risg, economeg a gwyddor gymdeithasol); ac ymchwil gymhwysol.
- Dealltwriaeth o weithrediadau economaidd yn y diwydiannau da byw, gan gynnwys proseswyr a masnachwyr fel y gellir ymgorffori ysgogiadau economaidd mewn asesiadau o risg, cyngor ac ymyriadau.

**5.2 Cynllun Diwygio'r Gwasanaeth Sifil:** Bydd AHVLA yn dilyn cyfeiriad Cynllun Diwygio'r Gwasanaeth Sifil[6] ac yn bodloni'r meini prawf a nodir ynddo. Yn ogystal â chymwyseddau milfeddygol a thechnegol mae'n rhaid i bob un o dimau milfeddygol a thechnegol AHVLA arddangos ymddygiadau megis arweiniad, cyfathrebu, gwneud penderfyniadau a gweithio mewn tîm fel y bo'n briodol i'w swydd a'u gradd. Wrth i staff symud i uwch swyddi, mae ymddygiadau, sgiliau a phrofiad graddau blaenorol yn dal i fod yn gymwys. Er mwyn cael dyrchafiad, disgwylir i unigolyn ddysgu ac arddangos y sgiliau a'r cymwyseddau proffesiynol sydd eu hangen mewn swydd uwch. Caiff hyn ei ardystio drwy adeiladu portffolio personol o dystiolaeth. Yn achos milfeddygon bydd hyn yn dechrau gyda Cham Datblygiad Proffesiynol (PDP) Coleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS) Professional Development Phase (PDP) neu hyfforddiant cyfatebol.

**5.3 Proffil teulu swyddi milfeddygol a thechnegol:** Ar gam cynnar yn y broses o weithredu'r strategaeth hon byddwn yn anelu at sicrhau cysondeb mewn swydd ddisgrifiadau a graddio i bobl a gyflogir mewn rolau milfeddygol a thechnegol. Mae Strategaeth Wyddoniaeth AHVLA hefyd yn amlinellu'r opsiynau gyrfaol amgen i bobl sy'n gallu dangos y ddawn a'r cymhwysedd angenrheidiol. Bydd hon yn dasg anodd yr ydym yn ymrwymo iddi er mwyn darparu'r adnoddau priodol. Gall ein milfeddygon a'n technegwyr hefyd lenwi rolau rheoli a llunio polisi cyffredinol nad ydynt yn rhestru arbenigedd technegol perthnasol fel

[6] Cynllun Diwygio'r Gwasanaeth Sifil: http://www.civilservice.gov.uk/reform cyrchwyd 28 Rhagfyr 2012

gofyniad hanfodol. Mewn achosion o'r fath mae cyfuniad o sgil a phrofiad mewn gweinyddiaeth busnes a gwybodaeth dechnegol gymhwysol yn esgor ar fanteision synergistaidd i'r sefydliad a'r unigolyn fel ei gilydd.

**5.4 Recriwtio, cadw a chydnabod:** Bydd recriwtio, cadw a chydnabod a gwobrwyo ein personél milfeddygol a thechnegol yn ddigonol yn hanfodol i lwyddiant AHVLA. Bydd meithrin cydberthnasau yn effeithiol ag israddedigion ac ôl-raddedigion mewn disgyblaethau perthnasol yn hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth yn barhaus a sicrhau bod milfeddygon a gweithwyr iechyd anifeiliaid yn deall ac yn cefnogi nodau ac amcanion AHVLA. Rydym yn canolbwyntio'n benodol ar filfeddygon gweithwyr iechyd anifeiliaid sy'n ymwneud â'n harferion o ran da byw a chig. Drwy gydweithio'n agosach yn y dyfodol byddwn yn atgyfnerthu ein gallu ar y cyd i gyflawni swyddogaethau milfeddygol y wladwriaeth.

**5.5 Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP):** Mae AHVLA yn ymrwymedig i gynnig cyfleoedd dysgu a datblygu parhaus strwythuredig a fydd yn helpu unigolion i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau i lwyddo yn eu gyrfaoedd fel milfeddygon neu dechnegwyr sy'n gweithio yn y Llywodraeth. Byddwn yn hyrwyddo fformat dysgu cyfunol gan ddefnyddio Cwricwlwm Cyffredin Dysgu'r Gwasanaeth Sifil (gweithio yn y Gwasanaeth Sifil, sgiliau craidd, arwain a rheoli, cymwysterau ôl-raddedigion proffesiynol achrededig a sgiliau wedi'u targedu, cyfleoedd datblygu o fewn AHVLA a mannau eraill). Bydd angen i DPP fod yn gymesur ag anghenion busnes ac anghenion unigol. Yn unol â chanllawiau Coleg Brenhinol y Milfeddygon bydd ein milfeddygon yn parhau i fod yn gyfrifol am ymgymryd â chofnod o'u datblygiad proffesiynol milfeddygol a'i gynnal.

**5.6 Datblygu Gyrfaol:** Mae angen map datblygu gyrfaol ar dimau milfeddygol a thechnegol AHVLA sy'n cyflawni'r cydbwysedd gorau o gymhwysedd (galluoedd milfeddygol a thechnegol), safonau ac ymddygiadau proffesiynol milfeddygol a chymwyseddau (ymddygiadau) y Gwasanaeth Sifil ar bob priod radd. Y nod yw denu, cymell datblygu a chadw'r bobl fwyaf dawnus sydd â diddordeb ym milfeddygaeth y wladwriaeth a dawn yn y maes. Er mwyn llwyddo mae'n rhaid i'r rhaglen gynnwys dulliau o reoli talent yn weithredol a strategaethau ar gyfer cydnabod a gwobrwyo, cyfnewid pobl a gwybodaeth yn hyblyg a datblygu potensial arwain a rheoli.

# RHEOLI A SICRHAU EIN MEDRUSRWYDD

**6.1 Galluoedd ac ymddygiadau:** Mae staff milfeddygol a thechnegol sy'n ymgymryd â thasgau a gweithgareddau ar ran AHVLA yn gweithio mewn amrywiol rolau. Gall y galluoedd (cymhwysedd) ac ymddygiadau (cymwyseddau) sydd eu hangen ar gyfer y swyddi amrywiol hyn fod yn gyffredinol neu'n arbenigol eu natur. Ar bob lefel disgwylir i'n staff milfeddygol a thechnegol, gyda chymorth rheolwyr i:

- Hunangyfeirio dysgu a chynnal sgiliau proffesiynol a thechnegol.
- Cymhwyso sgiliau proffesiynol a thechnegol ar draws ffiniau.
- Datblygu gwybodaeth a sgiliau sy'n berthnasol i'w rôl yn unol â fframwaith cymhwysedd craidd[7] y Gwasanaeth Sifil ac yn achos milfeddygon fframwaith cymhwysedd milfeddygon y llywodraeth.

Mae hyn yn cynnwys datblygu sgiliau a phrofiad ym maes arwain, rheoli pobl a gallu busnes/masnachol lle y bo'n briodol.

**6.2 Dadansoddi risg:** Mae angen i ni atgyfnerthu ein sgiliau mewn dadansoddi meintiol ac ansoddol a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn anelu at integreiddio data a grëir gan AHVLA â data sy'n dod o ffynonellau eraill ac yna eu dadansoddi i greu gwybodaeth a fydd yn helpu'r Llywodraeth i gyflawni'r hyn y mae am ei gyflawni. Drwy rymuso ein staff milfeddygol a thechnegol i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth byddwn yn sicrhau ein bod yn cydnabod doniau ein pobl yn llawn. Dylai roi cyfleoedd i ddatblygu arweinwyr ac arbenigwyr ym mhob maes.

**6.3 Rhwydweithiau rhannu a chyfnewid gwybodaeth:** Drwy rannu gwybodaeth yn effeithiol byddwn yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu parhaus ac yn annog creadigrwydd ac arloesedd. Mae AHVLA yn anelu at ddatblygu amgylchedd lle y gallwn ddatblygu fel unigolion a gweithredu'n effeithiol fel rhan o dimau amlddisgyblaethol. Dylai'r broses o ddatblygu rhannu gwybodaeth filfeddygol a thechnegol greu cydlyniad a chysondeb wrth weithredu. Byddwn yn anelu at lunio barn ar y cyd ar draws disgyblaethau o fewn AHVLA ar gyfer pob pwnc a defnyddio hon i roi cyngor cyson i'r rhai sy'n llunio polisïau ac eraill. Byddwn yn anelu at atgyfnerthu'r rhyngwyneb gweithredu polisi drwy sicrhau y bydd y rhai sy'n llunio polisïau yn cael cysylltiad â'r bobl fwyaf gwybodus.

**.6.4 Llywodraethu corfforaethol a safonau:** Mae angen i AHVLA sefydlu safonau gweithredol clir er mwyn sicrhau ansawdd y cyngor a'r gwasanaethau a ddarparwn. Mae fframwaith sicrhau ansawdd, gan gynnwys safonau clir ar gyfer llywodraethu corfforaethol, yn cael ei roi ar waith a dylai hwn gynnwys diwylliant o herio adeiladol. Mae'n rhaid i'r gwaith o reoli ac arfarnu pobl mewn rolau milfeddygol a thechnegol gael eu cefnogi a'u llywio gan arbenigedd perthnasol ar lefel briodol. Bydd hyn yn cynnwys atebolrwydd am fodloni gofynion DPP blynyddol a chymhwyso arbenigedd priodol at y gwaith o reoli achosion a gwneud penderfyniadau. Yn ddelfrydol, dylai rheolwyr milfeddygon a thechnegwyr feddu ar arbenigedd pwnc a dylent fod yn gallu cyflawni gwasanaethau y gellir codi tâl amdanynt yn ogystal â bod yn arweinwyr a rheolwyr pobl ardderchog.

**6.5 Milfeddygon y Llywodraeth:** Mae pob un o filfeddygon y llywodraeth yn aelodau o rwydwaith Milfeddygon y Llywodraeth yn awtomatig. Mae grŵp llywio'r rhwydwaith yn cynnwys uwch reolwyr milfeddygol o bob rhan o'r Llywodraeth ac mae wedi'i gadeirio gan Brif Swyddog Milfeddygol y DU. Drwy hyn ceir y drefn lywodraethu ac arwain ar y cyd ar gyfer gweithgorau a gweithgareddau'r rhwydwaith er mwyn cefnogi addysg filfeddygol, cyfnewid gwybodaeth a datblygu gyrfaol.

**6.6 Gweithio gyda phartneriaid gweithredol a masnachol:** Mae AHVLA eisoes yn gweithio mewn partneriaeth â milfeddygon preifat a sefydliadau eraill. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r partneriaethau arloesol a chadarn hyn er mwyn sicrhau gwerth am arian a chydnerthedd yn unol â nodau polisi hirdymor, gan sicrhau ein bod yn dod o hyd i arbenigwyr milfeddygol a thechnegol ac yn eu defnyddio yn y ffordd fwyaf priodol.



[7]Fframwaith Cymhwysedd y Gwasanaeth Sifil: http://www.civilservice.gov.uk/wp-content/uploads/2012/07/Civil-Service-Competency-Framework-July-2012.pdf

# BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

**7.1** Byddwn am sicrhau bod gennym Strategaeth Filfeddygol a Thechnegol y mae pob un ohonom yn teimlo'n rhan ohoni, gan fod hynny'n hanfodol er mwyn creu tîm milfeddygol a thechnegol cynhyrchiol, ymateb y gellir ymddiried ynddynt. Drwy weithredu'r strategaeth hon gall ddatblygu ein pobl i'w llawn botensial a sicrhau'r effaith fwyaf bosibl wrth wneud gwahaniaeth cadarnhaol i sicrhau dyfodol iach a chyfrannu at dwf economaidd.

**7.2** Y cam nesaf yw llunio cynllun gweithredu cynhwysfawr, gan gynnwys manylion y strwythur, y systemau rheoli a'r drefn lywodraethu a fydd yn ein galluogi i gyflawni'r weledigaeth a amlinellir yn y strategaeth hon. Bydd y broses o gyflwyno ein strwythur milfeddygol a thechnegol diwygiedig a gwelliannau i'n trefn lywodraethu yn cael ei chwblhau erbyn Gwanwyn 2014. Drwy gydol y cam gweithredu byddwn yn sicrhau ein bod yn ddigon hyblyg i ddatblygu ac addasu ein strategaeth mewn ymateb i amgylchiadau a galwadau sy'n newid.

© Hawlfraint y Goron 2013
Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i:
www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-governement-licence/, neu anfonwch e-bost i:
psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon i:

Animal Health and Veterinary Laboratories Agency (AHVLA)
New Haw
Addlestone
Surrey
KT15 3NB